Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Trywydd Golwg Fyd-eang Medr


**Dyddiad:** 14 Gorffennaf 2026

**Cyfeirnod:** Medr/2026/34


**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch
Penaethiaid colegau addysg bellach
Cyfarwyddwyr Addysg
Deiliaid contract prentisiaeth

**Ymateb erbyn:** Nid oes angen ymateb


**Rhagor o wybodaeth:** Bill Burson | golwgfydeang@medr.cymru



**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi sut y bydd Medr yn cyflawni ei ddyletswydd strategol i hybu golwg fyd-eang ar draws addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cyflwyniad**

1. Mae’r cyhoeddiad hwn yn nodi sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswydd strategol i hybu golwg fyd-eang ar draws addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

2. Mae ein map trywydd Golwg Fyd-eang, yn **Atodiad A**, yn amlinellu’r hyn yr ydym ni a’r sector addysg drydyddol ac ymchwil eisoes yn ei wneud yn y maes hwn, a sut y byddwn yn cynorthwyo darparwyr i ddatblygu ymgysylltiad rhyngwladol. Drwy ddarparu gwybodaeth a mewnwelediad, galluogi cydlafurio, a monitro a sganio’r gorwel, ei nod yw gwella’r canlynol:

   - hybu symudedd
   - galluogi cydlafurio rhyngwladol, a
   - cynyddu i’r eithaf y budd i Gymru.

3. Byddwn yn helpu i hwyluso ymgysylltu rhyngwladol drwy adeiladu ar ein cymorth cyfredol a chanolbwyntio ar gamau gweithredu sy’n ymdrin â risgiau, yn pontio bylchau mewn darpariaeth, yn galluogi mwy o gynrychiolaeth a chyfranogiad gan ddarparwyr a dysgwyr Cymru mewn gweithgarwch rhyngwladol, yn ogystal â hybu datblygiad gwybodaeth ac arbenigedd.

4. Cefnogir y map trywydd gan Map trywydd Golwg Fyd-eang Medr: *Cefndir, cyd-destun a dull*, yn **Atodiad B**. Mae hwn yn amlinellu’n fanylach y broses a ddefnyddiwyd i ddylunio’r map trywydd, y cyd-destun y’i datblygwyd ynddo, a sut y bydd gweithgarwch newydd a gweithgarwch sy’n bodoli eisoes yn galluogi Medr i gyflawni ei ddyletswyddau strategol drwy ganolbwyntio ar dri maes thematig:

   i. Darparu gwybodaeth a mewnwelediad

   ii. Galluogi cydlafurio

   iii. Monitro a sganio’r gorwel

5. Bydd y dull o gyflawni’r map trywydd Golwg Fyd-eang yn barhaus yn blaenoriaethu ymgysylltu a chydlafurio – gartref ac yn rhyngwladol – ac yn canolbwyntio ar gyflawni’r deilliannau gorau posibl i Gymru, ein dysgwyr a’n darparwyr addysg.

**Rhagor o wybodaeth**

6. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cylchlythyr hwn at Bill Burson: (golwgfydeang@medr.cymru).

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**